**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17 Mehefin 2013**

**PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASU**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Gwahodd yr Aelodau i ystyried y protocol atodol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd. Rhoddwyd ystyriaeth i'r protocol drafft yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Mai ac mae Aelodau'r Panel yn argymell fod y protocol yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod.

**Cefndir**

2 Mae'r cyfryngau cymdeithasu wedi dod yn ffenomen fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf, a Twitter a Facebook ymhlith y ddwy brif wefan a ddefnyddir i gysylltu gyda phobl dros y rhyngrwyd. Mae'n ddull o gyfathrebu ar unwaith, ac felly mae wedi dod yn boblogaidd iawn gan ei fod yn galluogi pobl i gyrraedd cynulleidfa eang mewn eiliadau.

3 Efallai y bydd yr Aelodau'n ymwybodol y bu rhywfaint o drafod ynghylch manteision ac anfanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasu yng nghyfarfodydd awdurdodau cyhoeddus.

**Gwybodaeth**

4 Paratowyd protocol ar y cyd ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd rhwng y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, a chaiff ei argymell i'r cynghorwyr yn eu cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai/Mehefin. Awgrymwyd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mabwysiadu'r un protocol, ac mae copi wedi ei gynnwys yn atodiad A.

5 Mae'r protocol yn berthnasol i Aelodau a swyddogion Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd ag aelodau o'r wasg a'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasu yn unrhyw un neu ragor o'r Awdurdod neu ei bwyllgorau. I Aelodau'r Awdurdod, mae'r protocol hwn yn atodiad i dorri'r Cod Ymddygiad, a gellid rhoi sylw i fethiant i ddilyn y protocol wrth ystyried a dorrwyd y Cod Ymddygiad ai peidio.

6 Mae'r protocol yn cydnabod yr angen i fod yn agored a thryloyw mewn cyfarfodydd, ond mae hefyd yn tynnu sylw at adrodd yn deg, cywir a chyfrifol. Mae'r protocol hefyd yn atgoffa'r Aelodau sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau nad yw hynny'n tynnu eu sylw oddi wrth y drafodaeth.

7 Mae pob cyngor yng Nghymru yn cael ei annog i ddarlledu ei gyfarfodydd ar y we ("gweddarlledu"), ac mae Llywodraeth Cymru wedi roi grant i alluogi i hyn ddigwydd. Er nad oes gan yr Awdurdod unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddarlledu ei gyfarfodydd, efallai y byddai'n dymuno ystyried y mater eto unwaith y daw'r sefyllfa yn y 6 chyngor yn ei ardal yn gliriach.

**Argymhellion**

8 Gwahoddir yr Aelodau i fabwysiadu'r protocol cyfryngau cymdeithasu ar ddarlledu a throsglwyddo o gyfarfodydd.

**PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASU**

Mae'r protocol hwn yn berthnasol i'r canlynol

- Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod Tân;
- Swyddogion; ac
- aelodau o'r wasg a'r cyhoedd sy'n dymuno darlledu neu drosglwyddo delweddau, sain neu negeseuon o unrhyw un neu ragor o gyfarfodydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau.

**Agored a Thryloyw**

Mae'r Awdurdod Tân yn cydnabod bod gan y cyhoedd hawl i fynychu, a phan nad ydynt yn gallu mynychu, fod ganddynt hawl i wybod a deall beth sydd wedi digwydd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau (a elwir yn gyfarfodydd wedi hyn).

Mae'r Awdurdod Tân yn dymuno cefnogi'r defnydd o gyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd. Felly, mae'r aelodau, y wasg a'r cyhoedd yn gallu defnyddio cyfryngau cymdeithasu o unrhyw gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, ar yr amod bod adroddiad teg a chywir yn cael ei roi o'r cyfarfod.

Mae'r protocol yn berthnasol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasu, megis Twitter neu Facebook, i sylwebu o gyfarfodydd ynghylch yr hyn sydd yn digwydd neu wedi digwydd yn y cyfarfod hwnnw.

**Materion i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub**

I Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ("aelodau"), mae'r protocol hwn yn atodiad i'r Cod Ymddygiad, a gellid rhoi sylw i fethiant i ddilyn y protocol wrth ystyried a dorrwyd y Cod Ymddygiad ai peidio.

**Cwrteisi, Parch a Didueddrwydd**

Rhaid i'r aelodau wneud penderfyniadau ar sail yr holl dystiolaeth, sy'n cynnwys:

- sylwadau a wneir gan y cyhoedd drwy arfer hawliau i siarad mewn cyfarfodydd;
- cyflwyniadau gan swyddogion; a
- sylwadau a wneir yn ystod dadleuon gan gyd-Aelodau o'r Awdurdod Tân.

Gall defnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd lygad-dynnu a golygu bod Aelodau'n colli tystiolaeth hollbwysig, a gall hefyd roi'r argraff nad yw'r aelodau'n gwrando nac yn talu sylw. Felly, cyfrifoldeb yr Aelodau yw gofalu eu bod yn ystyried pob mater perthnasol yn ystod cyfarfod, hyd yn oed os ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ac nad ydynt yn ymddangos yn anghwrtais drwy beidio â thalu sylw, sef rhywbeth a allai ymddangos fel pe baent yn peidio â thrin pobl eraill â pharch.

**Adrodd yn Deg, Cywir a Chyfrifol**

Lle aelodau sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yw rhoi adroddiad teg a chywir o'r hyn sy'n digwydd. Er bod pobl yn rhydd i fynegi sylwadau (gweler isod am ragor o gyngor ynghylch materion difenwi a'r Cod Ymddygiad), mae'n bwysig eu bod, os ydynt yn adrodd beth sy'n digwydd yn ystod y ddadl, hefyd yn adrodd ynghylch y canlyniad.

Os yw Aelodau'r Awdurdod Tân yn methu cadw at y protocol hwn, efallai y byddant wedi torri'r Cod Ymddygiad am beidio â thrin pobl eraill â pharch.

<u>Enghraifft</u>

Yn ystod dadl, efallai y bydd aelod yn anghytuno'n gryf â chynnig ac efallai ei fod yn darlledu nodyn sy'n ddirmygus o'r cynnig. Fodd bynnag, petai'r cynnig yn cael ei drechu o blaid cynnig arall, creu argraff anghywir o'r cyfarfod fyddai peidio â darlledu'r ffaith fod penderfyniad gwahanol wedi ei wneud.

**Materion Difenwi a'r Cod Ymddygiad**

Gallai sylwadau a wneir gan Aelodau yn ystod dadl olygu amddiffyniad braint amodol mewn perthynas â chyhuddiadau o ddifenwi wedi hynny. Fodd bynnag, mae sylwadau a wneir yn y cyfryngau cymdeithasu yn anhebygol o fanteisio ar yr amddiffyniad hwn.

Felly hefyd, mae sylwadau a wneir yn ystod dadl yn llai tebygol o gael eu trin fel rhai sy'n torri'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, gallai sylwadau a wneir yn y cyfryngau cymdeithasu ynghylch pobl eraill sy'n peidio â'u trin â pharch fod yn torri Cod yr Aelodau.

Mae cynghorwyr hefyd wedi ymrwymo i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Felly, ni chaniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasu pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn sesiwn gyfyngedig. Felly hefyd, ystyrir bod canlyniad eitemau a ystyrir ar ôl eithrio'r wasg a'r cyhoedd yn wybodaeth eithriedig hyd oni fo'r cofnodion wedi eu cyhoeddi.

Caiff aelodau'r Awdurdod Tân eu hatgoffa hefyd fod yn rhaid iddynt beidio â datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu eithriedig a roddir iddynt gan yr Awdurdod Tân a bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

**<u>Materion i'r Swyddogion</u>**

I'r swyddogion, mae'r protocol yn atodiad i'w cod ymddygiad hwy, a gallai fod yn sail achos disgyblu.

Mae'r swyddogion yn mynychu cyfarfodydd er mwyn cynghori'r aelodau. Ni chaniateir iddynt ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu o gyfarfodydd oni bai ei bod yn gwneud hynny yn benodol ar ran yr Awdurdod Tân.

**Materion i Aelodau o'r Wasg a'r Cyhoedd**

I aelodau o'r wasg a'r cyhoedd, bwriad y protocol yw gosod y weithdrefn y bydd yr Awdurdod Tân yn ei dilyn os yw'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd. Mae'n bwysig nad yw defnyddio cyfryngau cymdeithasu yn amharu ar y modd y caiff y cyfarfod ei gynnal, ac y gallai unrhyw fethiant i gadw at y gofynion hyn ac sy'n arwain at amharu ar y cyfarfod, arwain at ofyn i aelodau o'r wasg a'r cyhoedd roi stop arni a/neu adael y cyfarfod, a hynny yn ôl disgresiwn y cadeirydd.

Ni fyddai'r Awdurdod Tân yn dymuno ceisio rheoli beth y mae'r wasg neu'r cyhoedd yn ei ddweud, ond byddai'n gofyn iddynt roi adroddiad teg a chywir o gynnwys y ddadl a'r canlyniad.